***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

---

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dirprwyo arfer swyddogaethau penodol Gweinidogion Cymru fel awdurdod trwyddedu o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (p. 23) ("Deddf 2009") i Gorff Adnoddau Naturiol Cymru.

Nid yw'r Gorchymyn hwn yn gymwys i swyddogaethau'r awdurdod trwyddedu (yn bennaf y rhai sy'n ymwneud â gwneud is-ddeddfwriaeth) sy'n swyddogaethau sydd wedi eu heithrio ac na ellir eu dirprwyo yn rhinwedd adran 98(5)(a) o Ddeddf 2009 (erthygl 2(2)).

Mae erthygl 3 yn dynodi swyddogaethau Gweinidogion Cymru fel awdurdod trwyddedu o dan adrannau 67A, 72A, 107A a 107B o Ddeddf 2009.

Mae erthygl 4 yn darparu bod y swyddogaethau dynodedig yn arferadwy gan Gorff Adnoddau Naturiol Cymru, neu mewn perthynas ag ef, yn gweithredu ar ran yr awdurdod trwyddedu (yn hytrach na bod yn arferadwy gan yr awdurdod hwnnw, neu mewn perthynas ag ef). Mae gan yr awdurdod trwyddedu'r pŵer i roi cyfarwyddydau i Gorff Adnoddau Naturiol Cymru mewn cysylltiad â chyflawni swyddogaethau dirprwyedig (gweler adran 100 o Ddeddf 2009, sy'n swyddogaeth sydd wedi ei heithrio).

Mae'r Gorchymyn hwn yn ychwanegu at Orchymyn Trwyddedu Morol (Dirprwyo Swyddogaethau) (Cymru) 2013 (O.S. 2013/414 (Cy. 50)) a dylid ei ddarllen ar y cyd â'r Gorchymyn hwnnw.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.